

Pecyn Dogfen Cyhoeddus



At: Aelodau Cyngor Ymgynghorol
Sefydlog ar Addysg Grefyddol
(CYSAG)

Dyddiad: 5 Chwefror, 2015

Deialu 01824 712568

Union:

e-bost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Fe'ch gwahoddir i ddod i gyfarfod o'r **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR
ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** am **10.00 am, DYDD GWENER, 13 CHWFROR 2015**
yn **SIAMBR Y CYNGOR, Ffordd Llys Nant, Prestatyn LL19 9LG.**

Yn gywir

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

MYFYRDOD TAWEL

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 5 - 10)

Derbyn cofnodion cyfarfod CYSAG Sir Ddinbych a gynhaliwyd 22 Hydref 2014 (copi ynghlwm). Ac ystyried unrhyw faterion yn codi.

- 5 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU** (Tudalennau 11 - 16)
Derbyn dadansoddiad o Adroddiad Arolwg diweddar gan Estyn (copi ynghlwm).
- 6 CANLYNIADAU ARHOLIADAU 2013** (Tudalennau 17 - 28)
Ystyried adroddiad yn dadansoddi canlyniadau arholiadau ar gyfer 2013.
- 7 GWYBODAETH DATA** (Tudalennau 29 - 48)
Derbyn cyflwyniad PowerPoint a grëwyd gan CBAC ar gyfer cyfarfod CCYSAGC yr Hydref.
- 8 TREFNIADAU CYSAG A CHONSORTIA** (Tudalennau 49 - 56)
Derbyn adborth gan CCYSAGC ar sut gallai Aelodau gefnogi gwaith CYSAG.
- 9 AG A CHYMUNEDAU LLEOL** (Tudalennau 57 - 58)
Derbyn diweddariad ar lafar ynghylch y prosiect i gefnogi ysgolion sy'n gweithio gyda'u cymunedau crefyddol lleol.
- 10 CCYSAGC** (Tudalennau 59 - 60)
- (a) Derbyn cofnodion cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2014 (copi ynghlwm)
 - (b) Cytuno ar bresenoldeb yng nghyfarfod nesaf CCYSAGC ar 6 Mawrth, 2015 yn Sir Benfro.
 - (c) Er Gwybodaeth - 25 Mehefin, 2015 Sir y Fflint yn cynnal CCYSAGC a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol CCYSAGC.
- 11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Nodi amser a dyddiad cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych ar y 29 Mehefin 2015. Lleoliad i'w gadarnhau.

AELODAETH

Cynghorwyr yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Bill Tasker
Dewi Owens
Arwel Roberts

Joe Welch
Ann Davies

Yn cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Simon Cameron
Mr. Dominic Oakes
Y Parch. B H Jones
Y Parch. Martin Evans-Jones

Mary Ludenbach
Mrs C Thomas
S Harris
Is-Gapten Sian Radford

Yn cynrychioli Cymdeithasau Athrawon

Mrs C Harmsworth

Mrs Maureen Phillips

Aelodau Cyfetholedig

T. Ap Siôn

Mr G Craigen

COPIAU AT:

Bob Cynghorydd er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gyhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, TY RUSSELL, FFORDD CHURTON, Y RHYL , Dydd Mercher, 22 Hydref 2014 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Yn cynrychioli Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorwyr Margaret McCarroll, Arwel Roberts a Joe Welch

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Mr. Simon Cameron, Ms Mary Ludenbach a Ms S Harris

Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon

Ms. Ali Ballantyne

HEFYD YN BRESENNOL

Arweinydd Systemau GwE (PL) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

PWYNT O WYBODAETH

Yn absenoldeb y Cadeirydd - Y Parchedig Martin Evans-Jones, llywyddodd yr Is-Gadeirydd - y Cynghorydd Arwel Roberts yn ystod y cyfarfod.

MYFYRDOD TAWEL

Dechreuodd y cyfarfod gydag ychydig o funudau o fyfyrddod tawel.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Parchedig Martin Evans-Jones (Cadeirydd), Gavin Craigen, Cate Harmsworth, Dominic Oakes, Tania Ap Sion, ynghyd â'r Cynghorwyr Ann Davies a Dewi Owens

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd 16 Mehefin 2014 (a ddosbarthwyd yn flaenorol).

Materion yn Codi - Tudalen 7 - Gweithio gyda Chymunedau Crefyddol – Rhoddodd Arweinydd Systemau GwE wybod y byddai diweddariad yn cael ei roi yn ddiweddarach yn y rhaglen.

PENDERFYNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod CYSAG a gynhaliwyd 16 Mehefin 2014 fel cofnod cywir.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT CYSAG 2013/14

Cyflwynodd Arweinydd Systemau GwE (AS) Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Sir Ddinbych 2013/14 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) i'w gymeradwyo, a oedd yn rhoi manylion am weithgareddau CYSAG yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol, gan gynnwys cyngor a roddwyd i'r awdurdod addysg lleol ynghyd â materion lleol a chenedlaethol eraill.

Atgoffodd yr AS yr aelodau bod yr adroddiad blynyddol yn ddogfen hanesyddol, a cheisiodd gymeradwyaeth i'r adroddiad, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau, fel cofnod cywir i'w ddosbarthu i'r derbynwyr hynny a restrir yn yr adroddiad. Gofynnodd i'r aelodau ystyried cael gwared ag Esgobaeth Bangor o'r rhestr o dderbynwyr swyddogol, am nad oedd yn gwasanaethu unrhyw ddben penodol yn yr ardal a oedd yn dod o dan Esgobaethau Llanelwy a Wrecsam. Cytunodd yr aelodau gyda'r awgrym bod cyswllt e-bost at yr adroddiad yn cael ei anfon at Esgobaeth Bangor yn lle hynny.

Trafododd yr Aelodau'r swyddi gwag sy'n weddill ar CYSAG ac adroddodd yr AS ar ymdrechion sy'n cael eu gwneud i lenwi'r swyddi hynny. Nododd y Cadeirydd y swydd wag ar gyfer cynrychiolydd o Undeb yr Annibynwyr Cymraeg (yr oedd ef yn gysylltiedig ag ef), a chytunodd i ddarparu'r AS gyda'r manylion cyswllt perthnasol gyda'r bwriad o lenwi'r swydd wag benodol honno. Holodd Ms Mary Ludenbach ynghylch absenoldeb data arholiadau ar gyfer Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones o ran canlyniadau TGAU a Safon Uwch 2013 mewn Astudiaethau Crefyddol. Fe sefydlwyd bod problem dros ddarparu data AG ar gyfer yr ysgol wrth gael mynediad at wybodaeth Ymddiriedolaeth Teulu Fischer, sef y rheswm tebygol dros hepgor. Cytunodd yr AS i siarad â Ms Ludenbach y tu allan i'r cyfarfod gyda'r bwriad o sicrhau bod y data arholiadau perthnasol yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol CYSAG cyn ei ddosbarthu.

Roedd yr aelodau'n hapus i dderbyn yr adroddiad fel cofnod cywir o waith CYSAG, yn amodol ar y diwygiadau fel a drafodwyd.

PENDERFYNWYD:-

- (a) yn amodol ar y diwygiadau uchod, bod Adroddiad Blynyddol CYSAG Sir Ddinbych ar gyfer 2013 - 2014 yn cael ei gymeradwyo fel cofnod cywir o waith CYSAG, a

- (b) *gofyn i'r Awdurdod Addysg Lleol drefnu cyfieithu, argraffu a dosbarthu'r adroddiad i'r holl ysgolion a cholegau yn Sir Ddinbych a derbynwyr eraill fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac fel y nodwyd yn yr adroddiad.*

6 DADANSODDIAD O ADRODDIADAU AROLYGU

Cyflwynodd Arweinydd Systemau GwE (AS) adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn dadansoddi canlyniadau'r Arolygiadau Estyn diweddar o ran darpariaeth AG ac addoli ar y cyd mewn pedair ysgol rhwng Mawrth a Mai 2014. Cynhaliwyd arolygiadau yn Ysgol Uwchradd y Rhyl; Ysgol Bro Famau, Llanferres a Llanarmon-yn-lâl; Ysgol y Castell, Rhuddlan ac Ysgol Caer Drewyn, Clawdd Poncen. [Ymddiheurodd yr AS fod data ar gyfer Ysgol Gynradd Borthyn a reolir yn wirfoddol wedi'i hepgor a chadarnhaodd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad nesaf fel rhan o raglen y Gwanwyn.]

RRhoddodd yr AS grynodedd byr i'r aelodau o'r canfyddiadau'n ymwneud â phob ysgol ac roedd yr aelodau'n falch o nodi'r sylwadau a'r deilliannau cadarnhaol. Roedd yn arbennig o braf nodi'r cysylltiadau agos rhwng ysgolion ac eglwysi lleol. Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn Llywodraethwr yn Ysgol y Castell ac wedi synnu na nodwyd unrhyw gyfeiriad at gysylltiadau cadarnhaol yr ysgol honno gyda'r eglwys leol. Teimlai fod yr adroddiad yn adlewyrchu'n dda iawn ar bob un o'r ysgolion a arolygwyd. Dywedodd yr AS fod yr un maes wedi'i farcio ar gyfer datblygiad yn Ysgol Uwchradd y Rhyl yn dangos fod dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd-eang yn llai datblygedig, a allai neu na allai gyfeirio at AG.

PENDERFYNWYD:-

- (a) *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad;*
- (b) *anfon llythyr i'r ysgolion a arolygwyd yn eu hysbysu bod eu Hadroddiad Arolwg wedi cael ei ystyried a'u llongyfarch ar y nodweddion da a nodwyd, a*
- (c) *gofyn i'r Awdurdod Lleol ddosbarthu'r llythyrau uchod.*

7 ADRODDIAD ESTYN 'ADCDF CYNNYDD MEWN ADDYSG AR GYFER DATBLYGU CYNALIADWY A DINASYDDIAETH FYD-EANG'

Cyflwynodd Arweinydd System GwE (AS) adroddiad Estyn a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014 (copi wedi'i ddosbarthu'n flaenorol), a oedd yn canolbwyntio ar addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Darparodd yr AS rhywfaint o gyd-destun i'r adroddiad gan egluro bod hyrwyddo ADCDF yn un o amcanion allweddol Llywodraeth Cymru, a oedd yn anelu at annog ysgolion i ddarparu cyfleoedd i athrawon a disgyblion ystyried y materion hynny. Roedd yn disgrifio cynnydd roedd ysgolion wedi'i wneud ers yr adroddiad diwethaf yn 2006, a thrafododd AS gyda'r aelodau am nifer o'r canfyddiadau mewn perthynas ag AG fel a ganlyn -

- gwahaniaeth sylweddol rhwng adroddiadau 2006 a 2014 oedd y gwelliant mewn dinasyddiaeth fyd-eang a oedd bellach yn gyfartal â datblygu cynaliadwy o ran dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth
- canfu'r adroddiad fod disgyblion mewn ysgolion sydd â chyfran uchel o ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig ar y cyfan â gwell dealltwriaeth o effaith gwahaniaethu a rhagfarnu unigolion, na disgyblion mewn ysgolion eraill. Canfu hefyd mai ychydig o ddisgyblion yng nghyfnodau allweddol 3 a 4 oedd â dealltwriaeth dda o hunaniaeth a diwylliant, gan gynnwys cysyniadau cymhleth fel y cyswllt rhwng diwylliant, ffydd a systemau gwerth unigol a chredoau. Adroddodd yr AS ar un gwerslyfr Cyfnod Allweddol 3 roedd yn ei ysgrifennu gyda Gavin Craigen yn archwilio'r pwynt hwn a'r systemau cred. Nododd yr aelodau gyfrifoldeb adrannau AG yn hyn o beth, gan gynnwys cysylltu systemau cred, a wnaethpwyd yn dda. Nodwyd hefyd, ar gyfer Gogledd Cymru yn arbennig, bod diffyg disgyblion o leiafrifoedd ethnig, ond awgrymwyd y gellid gwneud cysylltiadau gydag ysgolion eraill â mwy o gymysgedd ethnig er mwyn archwilio'r amrywiaeth honno. Cytunodd CYSAG y dylid gwneud argymhelliad yn hynny o beth i Bennaeth Addysg Sir Ddinbych
- roedd yr adroddiad hefyd wedi darganfod, mewn ysgolion lle'r oedd ADCDF wedi'i sefydlu'n dda, neu lle'r oedd canran uchel o ddisgyblion o gefndir lleiafrifol ethnig, roedd bron yr holl ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gallu adnabod effaith bosibl gwahaniaethu a rhagfarnu unigolion. Fodd bynnag, mewn ysgolion lle nad oedd hyn yn wir, ychydig o'r disgyblion oedd yn deall y cysyniad hwnnw yn y cyfnod cynnar hwnnw. Nid oedd disgwyl y byddai disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn deall bod gwerthoedd diwylliannol a chredoau crefyddol yn llywio'r ffordd y mae pobl yn byw, ond trafodwyd y materion – mae'r ddealltwriaeth hon yn datblygu wrth i'r disgyblion symud ymlaen trwy Gyfnod Allweddol 2
- cyfeiriwyd yn yr adroddiad at ychydig o ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mwy cymhleth fel y cysylltiad rhwng diwylliant, ffydd a systemau gwerth unigol a chredoau. Roedd hyn yn siomedig i'w nodi oherwydd bod y gymuned AG wedi gweithio'n galed i hyrwyddo'r materion hynny
- Tynnodd Ms Ali Ballantyne sylw at arweinyddiaeth, rheolaeth a chefnogaeth ar gyfer ADCDF, a'r canfyddiadau lle nad oedd hyfforddiant wedi bod yn flaenoriaeth, bod diffyg hyder yn yr athrawon wrth addysgu'r cysyniadau mwy cymhleth, ac y byddai'r rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelwyd â nhw'n cael budd o hyfforddiant pellach mewn agweddau penodol ar ADCDF. Teimlai fod y mater hwn yn gyffredin ar draws y sir ac roedd yn awyddus i fwrw ati i hyfforddi ar lefel sirol. Dywedodd yr AS fod y canfyddiad hwn yn groes i Adroddiad Estyn ar AG mewn ysgolion uwchradd (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013), a ganfu nad oedd addysgu AG gan unigolion nad oeddynt yn arbenigwyr mewn AG mewn ysgolion uwchradd yn cael effaith negyddol ar safonau yn y mwyafrif o ysgolion
- nododd yr aelodau, lle'r oedd ysgol wedi ysgrifennu ei pholisi ei hun gydag athrawon yn cael cyfrannu'n uniongyrchol at ei gynnwys (yn hytrach nag addasu polisi a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol), roedd effaith gadarnhaol ar safonau a dealltwriaeth disgyblion o elfennau allweddol ADCDF – roedd hyn yn bwynt pwysig i'w gymhwyso i bob polisi – er mwyn i bolisiau AG fod yn effeithiol, dylid eu hysgrifennu o safbwynt yr ysgol unigol yn hytrach na chael eu gorfodi, ac fe allai'r neges honno gael ei chyfleu yn ôl i ysgolion gan aelodau

Wrth gloi'r ddadl, roedd yr aelodau â diddordeb mewn gweld ymatebion ysgolion at yr adroddiad, a thrafodwyd agweddau ymarferol o sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu rhoi ar waith mewn ysgolion, gan gynnwys rôl cydlynwyr yn y broses honno. Cyfeiriwyd hefyd at Gyrrff Llywodraethol a chadarnhaodd yr AS y byddai'n arfer da i aelod o'r corff llywodraethu gael cyfrifoldeb penodol am ADCDF. O ran hyfforddiant, roedd yn debygol y byddai darpariaeth yn dod yn rhan o gyfrifoldeb GwE yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar sylwadau'r aelodau uchod, derbyn yr adroddiad.

8 AG A CHYMUNEDAU LLEOL

Rhoddodd Arweinydd Systemau GwE (AS) ddiweddariad ar lafar ynghylch y prosiect i gefnogi ysgolion sy'n gweithio gyda'u cymunedau crefyddol lleol, gan roi gwybod mai ymateb cymharol isel a gafwyd gan ysgolion i gais am astudiaethau achos. O ganlyniad, roedd dyddiad cau ar gyfer ymatebion wedi'i ymestyn ac roedd yr AS wedi llunio ffurflen gydag awgrymiadau a syniadau i'w dosbarthu i ysgolion er mwyn annog ymatebion mwy ysbrydoledig.

Roedd yr Aelodau'n tybied mai pwysau a gofynion cyfredol ar ysgolion oedd y rheswm tebygol dros yr ymateb gwael. Trafododd yr Aelodau ffyrdd o sicrhau y cysylltir ag unigolion perthnasol o fewn yr ysgolion er mwyn ennyn yr ymatebion gorau. Roedd camau gweithredu ymarferol yn cynnwys -

- cylchredeg copi o'r ffurflen i'r holl aelodau CYSAG i'w rhoi i'w hysgolion
- anfon y ffurflen yn uniongyrchol i ysgolion ar gyfer sylw'r Cydlynwyr AG er mwyn sicrhau bod y cais yn cael ei dderbyn gan yr unigolyn priodol
- y posibilrwydd o gynnig cymhelliant i ysgolion i ymateb
- tynnu sylw aelodau o'r corff llywodraethu i godi ymwybyddiaeth

Amlygodd y Cadeirydd yr amser a oedd wedi mynd heibio ers darparwyd unrhyw hyfforddiant penodol, ac yn teimlo mai'r ffordd orau ymlaen fyddai trefnu sesiwn hanner diwrnod benodol ar gyfer pob Cydlynnydd AG. Trafododd yr Aelodau y posibilrwydd o drefnu sesiwn o'r fath a nodwyd na fyddai'r AS yn cael caniatâd i ymgymryd â'r dasg hon fel rhan o'i rôl bresennol. Cynigiodd Mr. Simon Cameron i gymryd y cyfrifoldeb hwnnw, gan roi gwybod am ei rôl fel Swyddog Ysgolion ar gyfer Esgobaeth Llanelwy a sesiynau tebyg roedd wedi'u trefnu yn rhinwedd y swydd, gan dynnu sylw at werth digwyddiad o'r fath. Roedd yn hapus i roi ei friff i ysgolion cymunedol os oes angen. Teimlai'r AS y byddai GwE yn caniatáu iddo fynychu'r sesiwn os oedd Mr Cameron yn barod i gymryd y cyfrifoldeb am drefnu'r digwyddiad, a thynnodd sylw at fanteision dull cydweithredol. Adroddodd hefyd ar y trafodaethau diweddar yng ngoleuni'r trefniadau consortia newydd, a oedd yn awgrymu bod angen i CYSAG fod yn fwy rhagweithiol ac yn llai dibynnol ar eu swyddogion cefnogi. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai Pennaeth Addysg Sir Ddinbych yn debygol o fod eisiau cyfranogi yn y fenter hon. Diolchodd yr AS a Mr Cameron am eu hymroddiad a -

PENDERFYNWYD:-

(a) *nodi diweddariad llafar ar y prosiect Cymunedau Lleol ac AG, a*

- (b) *bod Arweinydd Systemau GwE a Mr. Simon Cameron yn cwrdd y tu allan i'r cyfarfod i drafod yr agweddau ymarferol ar drefnu sesiwn ar gyfer Cydlynwyr AG.*

9 CCYSAGC

(A) Cofnodion CCYSAGC – 2 Gorffennaf 2014

Cyflwynwyd cofnodion drafft cyfarfod Cymdeithas CYSAG Cymru (CCYSAGC) a gynhaliwyd ym Mhowys 2 Gorffennaf 2014 (a ddosbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth i'r aelodau.

Adroddodd Systemau Arweiniol GwE (AS) ar gyflwyniad gan y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer AG a CYSAGau, a threfniadau consortia presennol a gafodd ei ddilyn gan weithdy gyda CYSAGau am eu gwaith ac ymateb i chwe chwestiwn penodol – gyda'r rhan fwyaf ohonynt wedi cael eu trafod yn ystod cyfarfod heddiw. Byddai canfyddiadau'r gweithgaredd gweithdy yn cael eu cyhoeddi.

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion CCYSAGC a gynhaliwyd 2 Gorffennaf 2014.*

(B) cyfarfod CCYSAGC – 26 Tachwedd 2014

Dywedodd Arweinydd Systemau GwE (AS) y bydd cyfarfod nesaf CCYSAGC yn cael ei gynnal 26 Tachwedd 2014 ym Mhont-y-pŵl ac y byddai ef yn mynychu ar ran CYSAG Sir Ddinbych. Gofynnodd hefyd i ddau gynrychiolydd arall fynychu gydag ef. Dywedodd Mr. Simon Cameron y byddai'n barod i fod yn bresennol. Mynegodd Ms Ali Ballantyne ddiddordeb ond dywedodd y byddai'n anodd gan y byddai angen trefnu staff cyflenwi.

PENDERFYNWYD *bod Mr. Simon Cameron a Philip Lord (Arweinydd Systemau GwE) yn mynychu'r cyfarfod CCYSAGC nesaf 26 Tachwedd, 2014.*

10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd cyfarfod nesaf CYSAG Sir Ddinbych am 10am ar ddydd Gwener 13 Chwefror 2015 yn Siambr y Cyngor, Ffordd Nant Hall, Prestatyn.

Wrth gloi'r cyfarfod, diolchodd y Cadeirydd i'r Arweinydd Systemau GwE am ei waith caled wrth gefnogi CYSAG.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 a.m.

<p>Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)</p>		
Dyddiad y Cyfarfod:		13 Chwefror 2015
Eitem ar y Rhaglen:	5	Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae'n ddyletswydd statudol ar CYSAG i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd mewn ysgolion. Mae ganddyn nhw draddodiad hir o dderbyn adroddiadau arolygon Estyn ym mhob cyfarfod.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Rhoi gwybod i aelodau am ganlyniadau Adroddiadau Arolygon diweddar Estyn ar ysgolion.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"> ▪ Derbyn yr adroddiad ▪ Anfon llythyr i bob ysgol i roi gwybod iddyn nhw bod adroddiad o'u harolwg wedi ei ystyried, i'w llongyfarch am yr elfennau da a nodwyd, ac i'w hatgoffa bod yr Uwch Ymgynghorydd Dysgu Addysg Grefyddol a'r Swyddogion Gwella Ysgolion ar gael i gynorthwyo gydag unrhyw faes sydd angen ei ddatblygu neu unrhyw fater sydd angen mynd i'r afael ag o. ▪ Y dylid gofyn i'r AALI ddisbarthu'r llythyrau i'r ysgolion perthnasol. 		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Dadansoddiad o Adroddiadau Arolygu CYSAG Sir Ddinbych

Gwanwyn 2014

(adroddiadau a gyhoeddwyd yn nhymor yr hydref)

4 Ysgol

Ysgol	Dyddiad	Arolygydd Adrodd
Ysgol Gynradd Borthyn	Mawrth 2014	Rebecca Lawton
<p><i>Mae Ysgol Borthyn yn nhref Rhuthun, Sir Ddinbych. Daw mwyafrif y disgyblion o'r ardal leol. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae 115 o ddisgyblion llawn amser ar y gofrestr a 22 yn y feithrinfa yn y boreau yn unig. Mae'r niferoedd wedi bod yn cynyddu'n raddol dros y pum mlynedd diwethaf. Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (26%) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i tua 12% o'r disgyblion. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae gan oddeutu 34% o ddisgyblion yr ysgol anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd yr awdurdod lleol.</i></p>		
Ysgol Uwchradd Prestatyn	Hydref 2014	Mrs Jackie Gapper
<p><i>Ysgol Uwchradd Prestatyn yn ysgol gyfun gymysg 11 i 18 oed a gynhelir gan awdurdod lleol Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd, mae 1,746 o ddisgyblion ar y gofrestr, gan gynnwys 360 yn y chweched dosbarth. Mae hyn yn cymharu â 1,769, gan gynnwys 339 yn y chweched dosbarth, ar adeg yr arolygiad blaenorol ym mis Rhagfyr 2010.</i></p> <p><i>Mae'r ysgol yn gwasanaethu tref Prestatyn a'r pentrefi cyfagos. Mae oddeutu 17% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n agos at gyfartaledd Cymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid oes unrhyw ddisgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae pum deg wyth (3.3%) o'r disgyblion yn derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Canran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yw 26%, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 20.1%. Canran y disgyblion sydd â datganiad anghenion addysgol arbennig yw 1.4%, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 2.4%.</i></p>		
Ysgol Penmorfa	Mehefin 2014	Janet Rowlands
<p><i>Mae Ysgol Gynradd Penmorfa ym Mhrestatyn yn Sir Ddinbych. Ar hyn o bryd mae gan yr ysgol 443 o ddisgyblion. Mae pum deg pump o'r rhain yn mynychu'r dosbarth meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol 15 dosbarth, tri ohonynt yn darparu ar gyfer mwy nag un grŵp oedran. Mae oddeutu 27% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae rhai o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae gan 27% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig.</i></p> <p><i>Mae 16 athro llawn amser a thri athro rhan amser yn yr ysgol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae bron pob disgybl yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.</i></p>		
Ysgol Pendref	Mehefin 2014	Jane Williams
<p><i>Mae Ysgol Pendref, a ffurfiwyd yn 2012, yn gyfuniad o hen Ysgol Fabanod Gwaenynog ac Ysgol Iau Heulfre. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn parhau i weithredu ar ddau safle unigol. Mae'r ysgol yn agos at ganol Dinbych. Mae oddeutu 59% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd Sir Ddinbych. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn yr ardal gyfagos, ond mae ychydig iawn yn dod o du allan i ddalgylch yr ysgol. Mae 157 o ddisgyblion llawn amser o bedair i 11 oed ar y gofrestr mewn saith dosbarth un oedran. Mae 23 disgybl rhan-amser pellach yn mynychu'r feithrinfa yn y boreau. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion o ethnigrwydd gwyn Prydeinig gydag ychydig iawn o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Nid oes yr un disgybl yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n derbyn cymorth gyda Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae rhai o'r disgyblion yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan oddeutu 40% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sy'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad statudol o anghenion addysgol arbennig.</i></p>		

SYLWADAU CADARNHAOL

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r canlyniadau?

Lles

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae'r ysgol yn hyrwyddo addysg ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang yn briodol. (Ysgol Gynradd Borthyn)
- Mae cysylltiadau â'r eglwys leol yn cyfoethogi profiadau ysbrydol y disgyblion. (Ysgol Gynradd Borthyn)
- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i ddisgyblion ddysgu am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang drwy'r cwricwlwm yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol. (Ysgol Uwchradd Prestatyn)
- Maent yn darparu ystod dda o gyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am ddinasyddiaeth fyd-eang trwy'r pynciau maent yn eu hastudio. (Ysgol Pendref)

Gofal, cymorth ac arweiniad:

- Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol ar gyfer datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Er enghraifft, mae'n gwella datblygiad diwylliannol y disgyblion drwy astudio India ac yn gweithio gyda drymwyr Affricanaidd a dawnswyr Japaneaidd. Mae gweithredoedd dyddiol o gydaddoli a'r cysylltiadau agos â'r eglwys leol yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ystyried materion ysbrydol a moesol. (Ysgol Gynradd Borthyn)
- Mae gwasanaethau i ysgogi'r meddwl a gwersi addysg grefyddol yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion fyfyrion ar eu credoau eu hunain ac archwilio ystod eang o faterion moesol. (Ysgol Uwchradd Prestatyn)
- Mae'r profiadau dysgu yn llwyddo i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. (Ysgol Penmorfa)
- Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol iawn o raglen benodol i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac emosiynol y disgyblion. (Ysgol Pendref)

Yr amgylchedd dysgu:

- Mae'r ysgol yn amgylchedd croesawgar gydag ethos cynhwysol. Mae pob disgybl yn derbyn mynediad cyfartal i holl feysydd darpariaeth yr ysgol. Mae ethos Cristnogol yr ysgol yn treiddio i bob agwedd o fywyd yr ysgol, ac mae gan yr ysgol ystod eang o weithgareddau cymunedol sy'n cyfoethogi sgiliau cymdeithasol a sgiliau bywyd y disgyblion. Mae gwersi a gwasanaethau yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda, ac mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o destunau cymdeithasol a moesol. (Ysgol Gynradd Borthyn)
- Mae Ysgol Uwchradd Prestatyn yn gymuned gwbl gynhwysol lle mae disgyblion yn mwynhau mynediad cyfartal i bob maes o'r cwricwlwm, ac yn rhan o 'gymuned sy'n cyflawni gyda'i gilydd', beth bynnag yw eu cefndir neu eu gallu. Mae ganddo amgylchedd croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu

gwerthfawrogi a'u parchu. Rhoddir ystyriaeth briodol i bolisiâu statudol i sicrhau y caiff cyfrifoldebau ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth eu diwallu'n dda. (Ysgol Uwchradd Prestatyn)

- Mae'r staff yn trin pob disgybl yn gyfartal ac yn hyrwyddo amrywiaeth yn dda. (Ysgol Pendref)

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda yw arweinyddiaeth a rheolaeth?

Arweinyddiaeth:

- Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar ethos Cristnogol. (Ysgol Gynradd Borthyn)

Gweithio mewn Partneriaeth:

- Mae partneriaeth yr ysgol gydag Eglwys Llanfwrog yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn eu datblygiad ysbrydol. Mae'r rheithor yn ymweld yn wythnosol â'r gwasanaeth a dosbarthiadau, ac mae disgyblion yn perfformio gwasanaethau yn yr eglwys ar wyliau crefyddol. Mae'r rhain, ynghyd ag ymweliadau'r ysgol i fannau addoli, fel Eglwys Gadeiriol Llanelwy, yn cefnogi'r maes llafur addysg grefyddol yn dda. (Ysgol Gynradd Borthyn)

SYLWADAU NEGyddol

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Profiadau dysgu:

- Mae cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn gyfyngedig. (Ysgol Penmorfa)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<p>Cyngor Sir Ddinbych Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol (CYSAG)</p>		
Dyddiad y Cyfarfod:		13 Chwefror 2015
Eitem ar y Rhaglen:	6	Canlyniadau Arholiad
<u>Cefndir yr Adroddiad:</u>		
<p>Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau manwl arholiadau Addysg Grefyddol TGAU a Lefel Uwch ar gyfer 2013 a 2014, ynghyd â dadansoddiad o'r gwahaniaethau a'r tueddiadau.</p>		
<u>Pwrpas yr Adroddiad:</u>		
<p>Er mwyn i'r aelodau allu arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â'u dyletswydd statudol i fonitro darpariaeth Addysg Grefyddol mewn ysgolion, ac i gael y wybodaeth lawn am ganlyniadau'r flwyddyn honno.</p>		
<u>Argymhellion:</u>		
<ul style="list-style-type: none"> • Derbynn yr adroddiad. • Ystyried unrhyw gamau pellach y gallai fod yn ofynnol 		

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Crynodeb o ganlyniadau arholiadau 2012-13

Summary of Examination Results 2012-13

I CYSAG Sir Ddinbych Chewfwr 2013 / For Denbighshire SACRE February 2013

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Llawn / GCSE Religious Studies - Full Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2013 <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	2014 <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	2013 A*-C %	2014 A*-C %	Gwahaniaeth / Difference %	+/- Cenedlaethol / National 2014
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	15	27	66.7	77.8	+11.1	+5.8
Glan Clwyd	9	20	88.9	80.0	-8.9	+8
Prestatyn	214	220	70.1	82.3	12.2	+10.3
Dinas Bran	30	80	70.0	78.8	+8.8	+6.8
Brynhyfryd	42	16	95.2	93.8	-1.4	+21.8
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	28	42	100.0	54.8	-45.2	-17.2
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	53	51	96.2	100	+3.8	+28
ALI /LA	391	456	78.8	81.1	2.3	9.1
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	11,414	11,368	73	72		

Astudiaethau Crefyddol TGAU – Cwrs Byr / GCSE Religious Studies – Short Course

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2013 <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	2014 <i>Nifer a safodd yr arholiad/ entry</i>	2013 A*-C %	2014 A*-C %	Gwahaniaeth/ Difference %	+/- Cenedlaethol / National 2014
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	117	1	51.3	100.0	+48.7	+47
Glan Clwyd	-	-	-	-	-	-
Prestatyn	68	-	14.7	-	-	-
Dinas Bran	13	3	30.8	100.0	+69.2	+47
Brynhyfryd	-	-	-	-	-	-
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	75	-	30.7	-	-	-
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	19	30	31.6	10.0	-21.6	-43
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	1	-	0.0	-	-	-
ALI /LA	293	34	35.2	20.6	-14.6	-32.4
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	12765	12,191	50.6	53		

Astudiaethau Crefyddol TGAU Safon Uwch/ GCE Religious Studies – A - Level

Yr Holl ymgeiswyr / All candidates:

Ysgol /School	2013 Nifer a safodd yr arholiad/ entry	2014 Nifer a safodd yr arholiad/ entry	2013 A*-C %	2014 A*-C %	Gwahaniaeth / Difference %	+/- Cenedlaethol / National 2014
<i>Dinbych/ Denbigh</i>	2	5	50	80	+30	-9
<i>Glan Clwyd</i>	3	4	100	75	-25	-14
<i>Prestatyn</i>	37	37	94.6	89.2	-5.4	+0.2
<i>Dinas Bran</i>	-	4	-	100	-	+11
<i>Brynhyfryd</i>	16	13	87.5	100	+12.5	+11
<i>Y Rhyl / Rhyl</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones</i>	-	-	-	-	-	-
<i>Santes Ffraid / St Brigids</i>	10	14	90	98.9	+8.9	+9.9
<i>ALI /LA</i>	68	77	91.2	89.6	-1.6	+0.6
<i>Holl Cymru / All Wales</i>	1422	1432	81	89		

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average

Cwrs Llawn / Full Course A* - C										
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Dinbych/ Denbigh	61.2%	67.9%	42.9%	70.6%	72.7%	67.4	77.8	72.0	66.7	77.8
Glan Clwyd	54.6%	63.6%	100%	68.8%	91.7%	50.0	81.8	100	88.9.	80.0
Prestatyn	65.4%	81.9%	75.5%	77.3%	89.5%	78.7	89.7	84.2	70.1	82.3
Dinas Bran	44.4%	72.7%	0.0%	100%	100%	50.0	87.2	70.8	70.0	78.8
Brynhyfryd	40.0%	66.7%	100%	100%	100%	81.0	86.9	94.0	95.2	93.8
Y Rhyl / Rhyl	60.0%	0.0%	100%	100%	100%	--	88.9	84.7	100.0	54.8
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	41.9%	22.4%	39.1%	55.8%	40.7%	52.3	53.2	72.2	-	-
Santes Ffraid / St Brigids	95.7%	98.0%	----	97.9%	95.5%	94.5	100	98.1	96.2	100
Nat. Average	70.2%	73.7%	71.1%	72.0%	71.9%	74.3	72.9	73.6	73	72
Cwrs Byr / Short Course A* - C										
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Dinbych/ Denbigh	70.6%	65.9%	51.8%	58.6%	40.8%	26.0	29.1	32.3	51.3	100.0
Glan Clwyd	N/A	N/A	53.3%	64.7%	84.0%	--	--	--	-	-
Prestatyn	20.0%	42.9%	28.6%	14.3%	9.5%	--	2.2	7.0	14.7	-
Dinas Bran	32.9%	28.3%	60.6%	28.3%	80.0%	77.6	29.1	0.0	30.8	100.0
Brynhyfryd	N/A	N/A	N/A	100%	100%	--	0.0	0.0	-	-
Y Rhyl / Rhyl	60.6%	46.8%	23.8%	33.0%	46.6%	19.0	21.5	20.2	30.7	-
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	6.7%	17.4%	6.1%	18.8%	16.7%	--	0.0	0.0	31.6	10.0
Santes Ffraid / St Brigids	93.6%	98.0%	88.7%	96.2%	96.1%	--	100	--	0.0	-
Nat. Average	58.7%	59.7%	58.8%	59.7%	59.2%	59.7	58.0	59.3	50.6	53

Cymharu canlyniadau â'r cyfartaledd cenedlaethol / Results Comparison to National Average

Safon Uwch / A Level										
	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014
Dinbych/ Denbigh	83.3%	66.7%	60.9%	64.3%	83.3%	41.1	45.4	--	50	80
Glan Clwyd	N/A	N/A	N/A	75.0%	N/A	--	100	--	100	75
Prestatyn	92.0%	64.7%	77.8%	34.6%	82.1%	57.1	64.8	100	94.6	89.2
Dinas Bran	0.0%	0.0%	100%	N/A	N/A	--	0.0	--	-	100
Brynhyfryd	30.0%	20.0%	N/A	100%	83.3%	80.0	100	100	87.5	100
Y Rhyl / Rhyl	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--	-	-
Ben Ed. Jones / Bl Ed Jones	N/A	N/A	N/A	N/A	N/A	--	0.0	--	-	-
Santes Ffraid / St Brigids	33.3%	58.3%	50.0%	100%	100%	83.2	100	100	90.0	98.9
Nat. Average	65.4%	65.5%	75.9%	75.7%	79.7%	78.5	78.0	98.3	81	89

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 1
Denbighshire Schools – Table 1

CANLYNIADAU TAGAU 2014: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2014: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	27	3	11.1%	5	18.5%	9	33.3%	4	14.8%	4	14.8%	2	7.4%		0.0%		0.0%		0.0%	77.8%	100%
Glan Clwyd	20	6	30.0%	6	30.0%	3	15.0%	1	5.0%	4	20.0%		0.0%		0.0%		0.0%		0.0%	80.0%	100%
Prestatyn	220	16	7.3%	46	20.9%	59	26.8%	60	27.3%	13	5.9%	18	8.2%	4	1.8%	4	1.8%		0.0%	82.3%	100%
Dinas Bran	80	1	1.3%	11	13.8%	23	28.8%	28	35.0%	8	10.0%	2	2.5%	4	5.0%	3	3.8%		0.0%	78.8%	100%
Brynhyfryd	16	10	62.5%	4	25.0%		0.0%	1	6.3%		0.0%	1	6.3%		0.0%		0.0%		0.0%	93.8%	100%
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	42	1	2.4%	2	4.8%	9	21.4%	11	26.2%	6	14.3%	9	21.4%	2	4.8%	2	4.8%		0.0%	54.8%	100%
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0%
<i>Sant Ffraid/ Sant Brigids</i>	51	15	29.4%	21	41.2%	11	21.6%	4	7.8%		0.0%		0.0%		0.0%		0.0%		0.0%	100%	100%
Cyfanswm ALL/ LN Totals	456	52	11.4%	95	20.8%	114	25.0%	109	23.9%	35	7.7%	32	7.0%	10	2.2%	9	2.0%	0	0.0%	81.1%	100%
<i>HSW Cymru All Wales</i>	<i>11,368</i>		<i>10%</i>		<i>19%</i>		<i>22%</i>		<i>19%</i>		<i>11%</i>		<i>7%</i>		<i>5%</i>		<i>3%</i>		<i>2%</i>	72%	98%

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 2
Denbighshire Schools – Table 3

CANLYNIADAU TAGAU 2013: PAWB – ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
GCSE RESULTS 2013: ALL – RELIGIOUS STUDIES

<i>Ysgolion Schools</i>	<i>Cyfanswm /Totals</i>	<i>A*</i>	<i>%</i>	<i>A</i>	<i>%</i>	<i>B</i>	<i>%</i>	<i>C</i>	<i>%</i>	<i>D</i>	<i>%</i>	<i>E</i>	<i>%</i>	<i>F</i>	<i>%</i>	<i>G</i>	<i>%</i>	<i>U</i>	<i>%</i>	<i>% A* - C</i>	<i>% A* - G</i>
<i>Dinbych Denbigh</i>	15	1	6.7%	1	6.7%	2	13.3%	6	40.0%	4	26.7%	0	0.0%	0	0.0%	1	6.7%	0	0.0%	66.7%	100%
<i>Glan Clwyd</i>	9	2	22.2%	2	22.2%	2	22.2%	2	22.2%	0	0.0%	1	11.1%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	88.9%	100%
<i>Prestatyn</i>	214	12	5.6%	20	9.3%	56	26.2%	62	29.0%	31	14.5%	15	7.0%	13	6.1%	5	2.3%	0	0.0%	70.1%	100%
<i>Dinas Bran</i>	30	4	13.3%	1	3.3%	8	26.7%	8	26.7%	3	10.0%	4	13.3%	2	6.7%	0	0.0%	0	0.0%	70.0%	100%
<i>Brynhyfryd</i>	42	15	35.7%	14	33.3%	7	16.7%	4	9.5%	1	2.4%	1	2.4%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	95.2%	100%
<i>Y Rhyd/ Rhyl</i>	28	1	3.6%	11	39.3%	6	21.4%	10	35.7%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	100.0%	100%
<i>Den Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	90	2	2.2%	8	8.9%	13	14.4%	25	27.8%	14	15.6%	10	11.1%	6	6.7%	9	10%	3	3.3%	53.3%	96.7%
<i>Santes Ffraid/ St Brigids</i>	53	17	32.1%	20	37.7%	9	17.0%	5	9.4%	2	3.8%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	96.2%	100.0%
<i>Cyfanswm AALI/ LA Totals</i>	481	54	11.2%	77	16%	103	21.4%	122	25.4%	55	11.4%	31	68.6%	21	4.3%	15	3.1%	3	0.6%	80.5%	99.4%
<i>Holl Cymru All Wales</i>	<i>11,414</i>		<i>14%</i>		<i>19%</i>		<i>22%</i>		<i>18%</i>		<i>11%</i>		<i>6%</i>		<i>5%</i>		<i>3%</i>		<i>2%</i>	<i>73%</i>	<i>98%</i>

Ysgolion Sir Ddinbych – Tabl 3
Denbighshire Schools – Table 3

CANLYDIADAU TGAU 2014 PAWB – ASTUDIAETHAU GREFYDDOL: CWRS BYR
GCSE RESULTS 2014: ALL – RELIGIOUS EDUCATION SHORT COURSE

<i>Ysgolion/ Schools</i>	<i>Cyfanswm/ Totals</i>	A*	%	A	%	B	%	C	%	D	%	E	%	F	%	G	%	U	%	% A* - C	% A* - G
<i>Dinbych Denbigh</i>	1	0	0.0%	0	0.0%	1	100.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	100.0%	100.0%
Glan Clwyd	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
Prestatyn	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
Dinas Bran	3	0	0.0%	0	0.0%	1	33.3%	2	66.7%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	100.0%	100.0%
Brynhyfryd	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
<i>Y Rhyl/Rhyl</i>	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
<i>Ben Ed Jones/Bl. Ed Jones</i>	30	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	3	10.0%	4	13.3%	6	20.0%	3	10.0%	5	16.7%	9	30.0%	10.0%	70.0%
<i>Santes Ffraid/ St Ffegids</i>	0	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0	0.0%	0.0%	0.0%
<i>Cyfanswm All LRA Totals</i>	34	0	0.0%	0	0.0%	2	5.9%	5	14.7%	4	11.8%	6	17.6%	3	8.8%	5	14.7%	9	26.5%	20.6%	73.5%
